Hawdd i'w Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dod â digartrefedd i ben yng Nghymru

## Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau rydyn ni yn bwriadu eu gwneud i'r gyfraith

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ddileu Digartrefedd yng Nghymru**'.

**Hydref 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymr**u. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:**
DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@gov.waless

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys

**Beth sydd yn yr adroddiad yma** ........ **4**

**Beth rydyn ni eisiau ei newid** ........ **11**

1. Newidiadau i'r brif ddeddf digartrefedd ........ 11

2. Newidiadau i beth mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus ei wneud i stopio digartrefedd ........ 18

3. Gweithio i stopio digartrefedd ........ 19

4. Mynediad i dai ........ 27

**Gwneud y newidiadau** ........ **30**

**Geiriau Anodd** ........ **32**

**Cwestiynau** ........ **33**

# Beth sydd yn yr adroddiad yma




Yn 2014 daeth cyfraith allan o'r enw **Deddf Tai (Cymru) 2014**.



Mae'r ddeddf yma yn dweud sut y dylid rhedeg gwasanaethau tai a digartrefedd.



Mae digartrefedd yn meddwl nad oes gennych chi gartref i fyw ynddo.



Mae gwasanaethau tai a digartrefedd yn cefnogi pobl i ddod o hyd a chael cartrefi pan fyddan nhw angen help.




Mae'r ddeddf yma wedi helpu llawer i stopio pobl rhag dod yn ddigartref.



Rydyn ni'n credu bod angen gwneud newidiadau i'r ddeddf i helpu mwy ar bobl.




Yn y dyfodol fe fydd angen i ni edrych ar wneud newidiadau i ganllawiau i wneud pethau'n onest ac yn agored i bobl.

Yn yr adroddiad yma, rydyn ni yn sôn am y pethau yma:




- Newid y gyfraith am ddigartrefedd.
- Beth mae gwasanaethau yng Nghymru yn gallu ei wneud i helpu i stopio digartrefedd.
- Gweithio i stopio pobl rhag dod yn ddigartref.
- Mynediad i dai. Mae hyn yn meddwl gallu dod o hyd i gartref, cael cartref a thalu amdano.
- Sut fydd y newidiadau yn cael eu gwneud.



Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i edrych ar y materion yma. Mae’n cael ei alw yn **Panel Adolygu Arbenigol**.




Mae’r panel wedi gweithio gyda ni i wneud yr adroddiad yma.



Fe wnaethom ni ofyn beth roedd llawer o bobl ar draws Cymru o wahanol gefndiroedd yn ei feddwl. Gan gynnwys dros 350 o bobl sydd wedi bod yn ddigartref.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am ein syniadau yn yr adroddiad yma.




Darllenwch y llyfryn yma ac yna atebwch y cwestiynau ar y diwedd. Am ragor o wybodaeth edrychwch ar ein gwefan: https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-papur-gwyn

# Pam rydyn ni eisiau gwneud newidiadau nawr



Mae llawer wedi newid ers i'r gyfraith ddechrau yn 2014. Er enghraifft, COVID-19 a chost uwch pethau fel bwyd a gwres.



Rydyn ni eisiau stopio digartrefedd yng Nghymru.

Pan dydyn ni ddim yn gallu stopio digartrefedd rhag digwydd, rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr:




- dim ond yn para am gyfnod byr
- dydy e ddim yn digwydd eto a
- dydy e ddim yn digwydd yn aml.



Mae angen i ni wneud mwy i stopio digartrefedd a helpu pobl yn gynnar.



Mae angen i ni ddefnyddio llai **o dai dros dro hefyd**. Dyma pryd mae pobl yn aros mewn tai am gyfnod byr nes eu bod yn dod o hyd i dai parhaol.



Mae defnyddio llai **o dai dros dro** yn cael ei alw yn **Ailgartrefu Cyflym**.



Mae angen i bobl gael tai parhaol cyn gynted â phosibl. Hefyd, mae'n rhaid i'r cartref fod yn iawn ar gyfer eu hanghenion.

## Beth fydd y newidiadau yn ei feddwl i ddigartrefedd yng Nghymru

Fe fydd y newidiadau yn meddwl:



- Dydy bod yn ddigartref ddim yn gyffredin. Dim ond am gyfnod byr y mae'n para pan fydd yn digwydd, a dydy e ddim yn digwydd eto.



- Mae pobl sy'n ddigartref yn profi llai o **drawma**.



**Trawma** ydy pan fyddwch chi wedi profi rhywbeth sy'n achosi i chi deimlo'n ddrwg am amser hir.



Mae digartrefedd yn achosi llawer o straen i bobl. Rhaid meddwl am hyn wrth gefnogi pobl.

Fe fydd y newidiadau yn meddwl:



- Mae pobl yn cael cartref parhaol yn fwy cyflym.



- Rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus weithio'n fwy caled i stopio digartrefedd.
- Mae pobl yn cael help yn fwy cynnar i'w stopio rhag mynd yn ddigartref.





- Mae gwasanaethau tai lleol yn meddwl mwy am anghenion pobl ac yn rhoi pobl yn gyntaf.



- Mae'r gwasanaethau'n haws i'w defnyddio, ac maen nhw yn gweithio gyda'i gilydd mwy.
- Mae tai dros dro yn cael eu gwella.



- Rydyn ni yn defnyddio **tai cymdeithasol** ac opsiynau eraill yn fwy. **Tai cymdeithasol** ydy tai sy'n eiddo i'r cyngor neu gymdeithas dai.



- Rydyn ni yn gwneud mwy i wella profiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd.

# Beth rydyn ni eisiau ei newid

Dyma rai o’r prif newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud:

## 1. Newidiadau i’r brif ddeddf digartrefedd

**Rydyn ni yn awyddus i helpu pobl yn fwy cynnar. Mae hyn yn meddwl:**




- Pobl sy’n debygol o fod yn ddigartref o fewn 6 mis.



- A phobl sydd wedi derbyn **Hysbysiad Ceisio Meddiant**. Mae hwn yn llythyr yn dweud bod yn rhaid iddyn nhw adael eu cartref.



Mae hyn yn meddwl y bydd pobl yn cael help yn gynt, cyn i bethau fynd yn wael iawn.

# Y problemau a beth rydyn ni eisiau ei newid



Does dim digon o gartrefi i bobl yng Nghymru. Mae angen i ni wneud mwy o waith gyda chynghorau ac eraill i newid hyn.



Mae mwy o bobl angen help i roi'r gorau i fod yn ddigartref. Dyna pam mae angen i ni wneud newidiadau.




Fe wnaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 helpu llawer gyda digartrefedd yng Nghymru, ond mae problemau wedi bod o hyd.



Dydy e ddim yn gwneud digon i wneud yn siŵr bod pobl yn cael help yn gynnar.



Mae hefyd wedi bod yn anodd casglu gwybodaeth am ddigartrefedd.




Does dim digon wedi bod yn y ddeddf i helpu cynghorau i stopio digartrefedd rhag digwydd.




Dydy e ddim wedi gwneud digon i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael yr help cywir ar gyfer eu hanghenion.



Dydy'r ddeddf ddim wedi helpu digon o bobl sengl a phobl sy'n byw ar y stryd.



Dim ond pobl ag anghenion penodol y mae'n rhaid i gynghorau eu helpu. Mae hyn yn meddwl bod llawer o bobl wedi dod yn ddigartref ar y stryd oherwydd nad oedden nhw'n gallu cael help.




Mae mwy o bobl yn ddigartref nawr na phan ddechreuodd y ddeddf yn 2014.



Ond mae nifer y bobl sy'n cael help wedi aros yr un fath.



Hefyd, pan fydd pobl yn ddigartref, maen nhw yn aml yn cael problemau eraill ar yr un pryd. Er enghraifft, problemau iechyd meddwl. Mae hyn yn meddwl eu bod nhw angen gwahanol fathau o gefnogaeth ar yr un pryd.




**Rydyn ni eisiau i'r awdurdod tai lleol wneud Cynllun Tai Personol ar gyfer pob person neu deulu. Mae'r cynllun yn dangos y camau maen nhw'n eu cymryd i ddod o hyd i gartref iddyn nhw.**




Fe ddylen nhw wneud y cynllun gyda'r bobl dan sylw a'i seilio ar eu hanghenion.




Fe ddylid edrych ar y cynllun bob 8 wythnos.



Fe ddylai’r cynllun gynnwys beth mae’r person ei eisiau ar gyfer eu cartref.



Fe ddylai pobl allu gofyn i gael gweld beth sydd yn cael ei wneud a pha mor dda ydy’r cartref sydd yn cael ei gynnig.



Mae’r ddeddf nawr yn dweud bod yn rhaid i berson fod ag **angen blaenoriaeth** i gael help. Er enghraifft, os oes ganddyn gyflwr iechyd sy’n eu gwneud yn agored i niwed.



**Rydyn ni eisiau cael gwared ar y rheol yma a gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael help pan fyddan nhw yn ddigartref.**




Mae yna reol o’r enw **bwriadoldeb** hefyd. Mae hyn yn meddwl efallai mai bai’r person ei hun ydy eu bod wedi gorfod gadael eu cartref.




**Mae hyn yn gallu newid y math o help y mae’n rhaid i gyngor ei roi i’r person neu beidio.**



Rydyn ni eisiau cael gwared ar y rhan yma o’r ddeddf.




Mae **cysylltiad lleol** yn rheol arall. Mae hyn yn meddwl mai dim ond os ydy rhywun yn dod o ardal benodol neu gyda chysylltiadau gyda’r ardal honno y mae angen i gyngor ddarganfod cartref i rhywun.



**Rydyn ni eisiau newid hyn fel bod cynghorau yn gallu bod yn fwy hyblyg. Er enghraifft, os ydy rhywun mewn perygl os ydyn nhw’n aros yn eu ardal eu hun.**



Rydyn ni hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help maen nhw ei angen i gadw eu cartref.




Weithiau efallai na fydd yn bosibl gweithio gyda phobl ond rydyn ni eisiau i gynghorau fod yn deall anghenion unigolyn.



**Rydyn ni eisiau newid y ddeddf fel bod cynghorau yn gallu penderfynu rhoi'r gorau i weithio gyda phobl pan:**

- **Maen nhw'n bygwth staff.**
- **Maen nhw'n dal i fethu apwyntiadau.**



Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i'r cyngor ddweud wrth y person a rhoi cyfle iddyn nhw esbonio.



Rydyn ni eisiau newid sut rydyn ni'n siarad â phobl a allai ddod yn ddigartref.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn siarad â phobl mewn ffordd maen nhw'n ei ddeall ac yn ateb eu hanghenion.




Er enghraifft, i rywun ag anabledd dysgu, mae hyn yn meddwl rhoi gwybodaeth Hawdd ei Ddeall iddyn nhw.

# 2. Newidiadau i beth mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus ei wneud i stopio digartrefedd



Mae'n bwysig bod sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help maen nhw ei angen.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gofalu am lesiant pobl sydd:

- efallai fydd yn mynd yn ddigartref
- ac sydd yn ddigartref.



I wneud hyn mae angen mwy o wasanaethau cyhoeddus, fel gwasanaethau cymdeithasol, i weithio'n well gyda gwasanaethau tai i helpu rhywun i gadw eu cartref.



Mae hyn hefyd yn meddwl bod angen i ni wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn deall y problemau sydd gan bobl a gwybod beth i'w wneud.



Fe fydd angen iddyn nhw ddweud wrth gynghorau bod rhywun yn gallu mynd yn ddigartref.

# 3. Gweithio i stopio digartrefedd



Mae rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o fod yn ddigartref nag eraill.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r help mae pobl ei angen.

Mae angen i ni feddwl am sut mae digartrefedd yn effeithio ar rai grwpiau o bobl. Er enghraifft:



- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl
- Pobl yn gadael yr ysbyty
- Pobl yn cael eu cam-drin
- Pobl anabl
- Pobl yn gadael carchar
- **Cyn - filwyr**



Mae **cyn-filwr** yn gyn-aelod o'r lluoedd arfog.

# Plant a Phobl Ifanc



Rydyn ni'n credu y dylai gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd gydweithio'n well pan fydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn ddigartref.



**Ni ddylid chwaith eu gosod mewn tai dros dro heb gefnogaeth.**



Mae plant a phobl ifanc sydd â **phrofiad o fod mewn gofal** yn fwy tebygol o fod yn ddigartref.



Mae rhywun sydd â **phrofiad o fod mewn gofal** yn berson sydd wedi cael lle i fyw neu aros gan y gwasanaethau cymdeithasol am 1 diwrnod neu fwy, cyn eu pen-blwydd yn 18 oed.



Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae dros 1 o bob 4 o bobl ifanc digartref wedi bod mewn gofal.



**Rydyn ni'n credu fod angen i wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i helpu plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.**

## Iechyd meddwl



Mae problemau iechyd meddwl yn gallu gwneud rhywun yn fwy tebygol o fod yn ddigartref.



Mae digartrefedd hefyd yn gallu achosi problemau iechyd meddwl.



**Rydyn ni yn credu bod angen i wasanaethau iechyd a chynghorau gydweithio'n well i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl.**

**Mae angen i wasanaethau tai hefyd ddeall mwy am iechyd meddwl.**



Mae rhai pobl sy'n dod yn ddigartref yn defnyddio cyffuriau neu alcohol. Weithiau, mae hyn yn gallu bod yn gysylltiedig ag iechyd meddwl.

## Gadael yr ysbyty



Weithiau mae pobl yn mynd yn ddigartref pan fyddan nhw yn gadael yr ysbyty.



**Pan fydd rhywun yn gadael yr ysbyty, rydyn ni'n credu y dylai'r ysbyty edrych i weld a oes ganddyn nhw gartref.**

**Rydyn ni yn credu y dylai'r cyngor helpu pobl sydd yn gallu bod yn ddigartref pan fyddan nhw yn gadael yr ysbyty.**

## Camdriniaeth



Mae digartrefedd yn gallu digwydd oherwydd **cam-drin domestig**. Dyma pryd mae partner neu aelod o'r teulu yn niweidio rhywun.



**Rydyn ni eisiau helpu mwy o bobl yn y maes yma. Er enghraifft, pobl sy'n cael eu rheoli neu'n cael eu cam-drin mewn ffyrdd eraill.**

## Pobl anabl



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gwasanaethau digartrefedd yn ateb anghenion pobl anabl.



Mae llawer o bobl anabl mewn tai dros dro. Mae pobl yn gallu mynd yn anabl os bydd eu hiechyd yn gwaethygu.




Mae pobl anabl hefyd yn aros am amser hir am gartrefi sy'n ateb eu hanghenion.



**Rydyn ni yn credu bod angen i bob cyngor gadw rhestr o dai hygyrch.**



Mae tai hygyrch yn meddwl bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i'r cartref a'i ddefnyddio. Er enghraifft, mae ganddo rampiau, rheiliau, a switshis golau ar uchder mae person anabl yn gallu ei gyrraedd.

## Gadael carchar



Mae angen i ni wneud newidiadau i helpu i stopio pobl sydd yn dod allan o'r carchar rhag dod yn ddigartref.



**Fe ddylid holi carcharor pan fyddan nhw yn mynd i'r carchar i weld a fyddan nhw yn colli eu cartref.**



Fe fydd hyn yn helpu i baratoi ar gyfer pan fyddan nhw yn dod allan a gwneud yn siŵr eu bod yn cael help yn gynt.




**Os ydy carcharor yn gallu mynd yn ddigartref o fewn 6 mis, fe ddylai'r carchar ddweud wrth y cyngor.**



Fe ddylai carchardai ddarganfod os ydy carcharor yn debygol o golli ei gartref tra yn y carchar.

## Cyn - filwyr



Weithiau mae pobl yn gallu mynd yn ddigartref pan fyddan nhw yn:

- cael eu rhyddhau o'r lluoedd arfog neu
- ar ôl gadael y fyddin.



Mae cyn-filwyr a'u teuluoedd yn wynebu llawer o heriau eraill o ran system digartrefedd.




**Rydyn ni eisiau adolygu'r canllawiau - Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y rheolau'n cael eu dilyn ar draws pob awdurdod lleol.**

# 4. Mynediad i dai



Does dim digon o gartrefi. Mae hyn yn rhoi pwysau ar **dai dros dro**.



**Mae angen gwella tai dros dro**, ond rydyn ni yn gwybod y bydd hyn yn cymryd amser.





Rydyn ni'n credu fod angen i'r ddeddf fod yn well i wneud yn siŵr bod tai yn ddiogel ac yn iach i bobl.



Ddylai pobl ddim gorfod rhannu lle cysgu mewn cartrefi dros dro.



**Rydyn ni yn credu na ddylai unrhyw un o dan 25 oed gael eu rhoi mewn cartrefi dros dro heb gefnogaeth.**




**Rydyn ni yn credu, pan fydd pobl yn cael cynnig cartref parhaol, y dylai fod yn eu hardal. Fe ddylai fod yn ddigon agos i fynd at y pethau sydd eu hangen ar y person hwnnw. Er enghraifft, gwaith ac ysgolion.**



Tai sy'n eiddo i'r cyngor, landlordiaid cymunedol a chymdeithasau tai ydy tai cymdeithasol. Mae'r rhain yn cael eu galw yn **Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**.



Mae tai cymdeithasol yn meddwl tai fforddiadwy. Dydyn nhw ddim yno i wneud arian i'r landlord.



**Mae angen i Landlordiaid Cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn fwy i stopio digartrefedd. Er enghraifft, fe fyddai hyn yn meddwl bod yn rhaid i gymdeithasau tai wneud mwy i ddod o hyd i gartrefi i bobl sy'n ddigartref.**



Mae rhestrau aros tai yn hir iawn. Dydy pawb sydd ar y rhestr ddim angen cartref. Maen nhw yn byw mewn cartref addas yn barod.

Maen nhw yn gallu ei gwneud hi'n anodd i reoli rhestrau aros tai.



**Rydyn ni yn credu y dylai cynghorau allu tynnu pobl sydd ddim angen cartref oddi ar restrau aros.**



Ar hyn o bryd, mae’n rhaid i gynghorau helpu rhywun sy’n ddigartref hyd nes eu bod wedi cael cynnig cartref addas.



**Rydyn ni eisiau i gynghorau barhau i weithio gyda phobl sydd angen help ychwanegol i aros yn eu cartrefi.**




Fe fyddai angen i’r person fod yn hapus gyda’r opsiwn tai, a rhaid iddo fod ar gael am o leiaf 12 mis.

# Gwneud y newidiadau




Mae gan rai sefydliadau y pŵer i reoli tai a digartrefedd yn ôl y gyfraith.



Er enghraifft, mae gan gynghorau lawer o bwerau i reoli gwasanaethau digartrefedd.




Mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** yn delio â chwynion sydd yn cael eu gwneud am gynghorau.



Mae gan Weinidogion Cymru rai pwerau yn ôl y gyfraith.

Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales


Mae gan **Arolygiaeth Gofal Cymru** rai pwerau yn ôl y gyfraith dros lefydd sy'n darparu gofal.



Rydyn ni yn credu y dylai'r pethau yma barhau. Ond rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eu bod yn ystyried digartrefedd yn fwy gofalus yn y dyfodol.



Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn parhau i wrando ar beth mae pobl ddigartref a phobl sydd wedi bod yn ddigartref yn ei feddwl.




Mae angen i ni allu cael gwell gwybodaeth gan gynghorau am ddigartrefedd.



Fe fydd hyn yn ein helpu i ddeall y problemau yn well a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud.

# Geiriau Anodd

## Tai hygyrch

Mae hyn yn meddwl bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i'r cartref a'i ddefnyddio. Er enghraifft, mae ganddo rampiau, rheiliau a switshis golau ar uchder mae person anabl yn gallu ei gyrraedd.

## Profiad o fod mewn gofal

Mae person sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn berson sydd wedi cael lle i fyw neu aros gan y gwasanaethau cymdeithasol am 1 diwrnod neu fwy, cyn eu pen-blwydd yn 18 oed.

## Trawma

Trawma ydy pan fyddwch wedi profi rhywbeth sy'n achosi i chi deimlo'n ddrwg am amser hir.

# Cwestiynau



Darllenwch y llyfryn hwn ac yna atebwch y cwestiynau.




Dylech anfon eich atebion atom erbyn **16 Ionawr 2024.**



Gallwch lenwi'r ffurflen hon ar eich cyfrifiadur a'i e-bostio i:

DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@gov.wales



Neu ei argraffu a'i bostio i:

Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ



1. **Beth ydych chi'n ei feddwl o'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud?**



**2. A oes unrhyw beth nad ydych chi'n ei hoffi am y newidiadau?**



**3. A oes unrhyw beth rydyn ni wedi ei anghofio?**